**LLYWODRAETH CYMRU**

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020**

**Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis)* (Ardal a Ddarnodir 8)**

Mae arolygydd iechyd planhigion, wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru at ddibenion Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau"), wedi nodi presenoldeb *Phytophthora pluvialis* ar safleoedd yn Sir Gaerfyrddin.

Wrth arfer y pwerau a roddir gan Reoliad 17(2) o'r Rheoliadau, rwy'n cyflwyno'r hysbysiad canlynol:

**Dyfynnu**

1. Gellir cyfeirio at yr hysbysiad hwn fel yr Hysbysiad Iechyd Planhigion (***Phytophthora pluvialis 08)*** (Cymru), a

2. Gan ddechrau o 24 Ionawr 2023, mae'n dirymu ac yn disodli'r Hysbysiad Iechyd Planhigion (*Phytophthora pluvialis*) (Ardal a Ddarnodir 2) a wnaed ar 22 Ebrill 2022.

**Ardal a ddarnodir**

3. Yn unol â rheoliad 17(2)(a) o'r Rheoliadau, mae'r ardal yn siroedd **Sir Gaerfyrddin** o fewn y ffin a ddisgrifir yn Atodiad 1, ac a ddangosir ar y map yn Atodiad 2 ar wefan Llywodraeth Cymru, wedi ei darnodi.

**Gwahardd symud planhigion a allai gael yr haint**

4. Yn unol â rheoliad 17(2)(b) o'r Rheoliadau, ni chaiff unrhyw unigolyn symud unrhyw blanhigion a allai gael yr haint o'r ardal a ddarnodir wedi'i nodi yn yr hysbysiad hwn, neu oddi fewn iddi, heb awdurdod ysgrifenedig gan Arolygydd Iechyd Planhigion.

**Blanhigion perthnasol a allai gael yr haint**

5. At ddibenion paragraff 4 uchod, mae planhigion a allai gael yr haint yn golygu unrhyw blanhigion ar gyfer plannu o'r genws ***Tsuga, Pseudotsuga, Pinus a Notholithocarpu*s** sydd wedi dod o'r ardal a ddarnodir neu sydd yn yr ardal honno.

**Dechrau'r gwaharddiad**

6. Mae'r gwaharddiad a nodir yn yr hysbysiad hwn yn berthnasol ar ac ar ôl **24 Ionawr 2023** nes y dywedir fel arall.

Llofnod



Bill MacDonald, Prif Swyddog Iechyd Planhigion Cymru

Llywodraeth Cymru, **17 Ionawr 2023**

## ATODIAD 1

### Disgrifiad o faint yr ardal a ddarnodir

Mae'r ffin yn dechrau yn SN869300, Llywel, ar ffordd heb ei gategoreiddio. Mae'n dilyn y ffordd hon i'r gorllewin am 400 metr nes iddi ymuno â'r A40 yn SN865300. O SN865300 mae'r ffin yn dilyn yr A40 gan fynd i'r gorllewin i Lanymddyfri am 12.8km, gan fynd drwy Halfway a Phentre-bach cyn cyrraedd canol y dref yn SN765343.

Yn SN765343 mae'r ffin yn gadael yr A40 gan fynd i'r gogledd-orllewin ar y B4344 drwy'r dref am 400 metr i SN766347. Yn SN766347 mae croesffordd, ac mae'r ffin yn dilyn Ffordd Cil-y-Cwm tua'r gogledd.

Yn SN766350 mae'r ffin yn dilyn ffordd ddiddosbarth o dan reilffordd. Mae'r ffin yn parhau i ddilyn y ffordd hon, ar bwys Afon Tywi i'r gorllewin, gan fynd i gyfeiriad Cil-y-Cwm am 3.9km.

Yn SN758384 mae pont dros Afon Tywi, ac mae'r ffin yn parhau i ddilyn yr un ffordd ddiddosbarth, mae Afon Tywi yn parhau i fod i'r gorllewin o'r ffin. Mae'r ffin yn parhau i ddilyn y ffordd hon am 1.9km.

Yn SN769398 mae cyffyrdd olynol. Mae'r ffin yn dilyn y ffordd ddiddosbarth sy'n mynd i'r gogledd i Randir-mwyn am 4.8km. Yn SN784437 yn Rhandir-mwyn mae'r ffin yn parhau i ddilyn y ffordd ddiddosbarth (i'r gogledd-ddwyrain), gydag Afon Tywi yn parhau i fod i'r gorllewin o'r ffin tuag at Lyn Brianne am 11.2km, nes ei bod yn cyrraedd bachdro yn SN821496. Yn SN821496 mae'r ffin yn gadael y ffordd ac yn dilyn llwybr troed sy'n mynd i'r gogledd-ddwyrain drwy ddyffryn serth am 3.7km cyn ailymuno â ffordd ddiddosbarth i'r de o Abergwesyn yn SN849517.

Yn SN849517 mae'r ffin yn dilyn ffordd sy'n mynd tua'r de tuag at Lanwrtyd gydag Afon Irfon i'r dwyrain am 6.7km. Yn SN878467 mae cyffordd yng nghanol Llanwrtyd, ac mae'r ffin wedyn yn dilyn yr A483 tua'r de am 300 metr, gan groesi pont garreg dros Afon Irfon cyn cyrraedd SN877464.

Yn SN877464 mae'r ffin yn gadael yr A483 ac yn dilyn ffordd ddiddosbarth am 3.1km i Gefn Gorwydd, gydag Afon Irfon i'r gogledd o'r ffin. Yn SN901455, yng Nghefn Gorwydd, mae'r ffin yn parhau i ddilyn ffordd ddiddosbarth tuag at Langamarch am 2.5km cyn cyrraedd cyffordd 'T' yn SN922469. Yn SN922469 mae'r ffin yn dilyn y ffordd i ffwrdd o Langamarch, gan fynd tua'r de tuag at Dirabad am 7.3km, i'r gorllewin o'r ffin mae llethrau serth i fyny i'r Epynt. Yn SN884414 mae'r ffin yn dilyn y ffordd i'r de i Lywel am 13.6km nes iddo gyrraedd SN869300.